

## **Ioan 16:1-4, 32-33**

*"Yr wyf wedi dweud y pethau hyn wrthy ch i'ch cadw rhag cwympto. Fe'ch torrânt chwi allan o'r synagogau; yn wir y mae'r amser yn dod pan fydd pawb fydd yn eich lladd chwi yn meddwl ei fod yn offrymu gwasanaeth i Dduw. Fe wnânt hyn am nad ydynt wedi adnabod na'r Tad na myfi. Ond yr wyf wedi dweud y pethau hyn wrthy ch er mwyn ichwi gofio, pan ddaw'r amser iddynt ddigwydd, fy mod i wedi eu dweud wrthy ch... Edrychwch, y mae amser yn dod, yn wir y mae wedi dod, pan gewch eich gwasgaru bob un i'w le ei hun, a'm gadael i ar fy mhen fy hun. Ac eto, nid wyf ar fy mhen fy hun, oherwydd y mae'r Tad gyda mi. Yr wyf wedi dweud hyn wrthy ch er mwyn i chwi, ynof fi, gael tangnefedd. Yn y byd fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd."*

### **Myfyrdod**

*'Yn y byd gorthrymder a gewch: eithr cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd.'*

Perthyn i hanes y Pasg y mae'r adnodau hyn o efengyl Ioan. Cawn Iesu yn yr oruwch ystafell y noson cyn y Groglith, ac wedi golchi traed ei ddisgyblion aiff rhagddo i siarad â hwy gan geisio eu paratoi ar gyfer ei ddioddefaint a'i farwolaeth, a chyflwyno iddynt beth o obaith yr atgyfodiad. Pwysleisia berthynas ganolog y disgyblion â'r Tad drwyddo ef, ond y mae hefyd yn eu rhybuddio y daw ofn a gorthrymder i'w rhan.

Diau i'w eiriau, gofnodwyd gan Ioan, fod yn gysur ac yn galonddid i genedlaethau o gredinwyr. Dywed yr Efengyl, nid yn unig i Iesu drwy ei Ymgnawdoliad rannu ein profiad a'n bywyd, ond iddo hefyd orchfygu'r byd â chariad. Er ei bod yn anodd gweld yn union weithiau beth a olyga gweithredu cariad yn ymarferol mewn sefyllfaoedd penodol, gallwn ddal gafael ar yr

argyhoeddiad daufiniog mai ffordd cariad yw ffordd Duw, ac mai cariad fydd yn fuddugoliaethus yn y diwedd.

O fod mewn cymundeb a chytgord perffaith â Duw gall Iesu gynnig tangnefedd i'w ddisgyblion. Yn ôl y Llythyr at y Galatiaid mae tangnefedd yn un o ffrwythau'r Ysbryd Glân (Gal 5:22) ac y mae'n llawer mwy nag absenoldeb gwrthdaro, ymryson ac ymrafael. Roedd Iesu Grist, meddai Ioan, yn feddianol ar dangnefedd noson ei fradychu! Y mae hefyd yn gadael ei dangnefedd yn rhodd i'w ddisgyblion.

### **Gweddï**

Arglwydd Iesu, mewn byd cythryblus, lle ceir gwrthdaro,  
gelyniaeth a dinistr, trown atat ti.  
Ceisiwn dy dangnefedd a'th gysur,  
a rhoddwn ein ffydd a'n hyder yng ngwirioneddau dy efengyl.

Daethost atom mewn gwendid, a datguddio dy hun yn  
orchfygwr,  
aethost oddi amgylch gan wneuthur daioni, ond ni fu i bawb dy  
groesawu,  
ceraist dy elynion, gan roi dy fywyd yn bridwerth dros lawer.

Yng nghanol dryswch ein cyfnod helpa ni  
i wrando dy eiriau'n fwy gofalus,  
i ganfod yn dy neges fwy eglur,  
i ddilyn dy esiampl yn fwy agos,  
ac i adlewyrchu dy gariad hunanaberthol a dioddefus.

Cyflwynwn i ti ein byd  
sy'n ymddangos heddiw'n rhwygedig a llawn trallod.  
Cofiwn ger dy fron drigolion Haiti ddioddefodd effeithiau  
dinistriol daeargryn,

a phoblogaeth Afghanistan sy'n byw drwy gyfnod o ofn a  
dychryn ac ansicrwydd mawr.  
Yn dy drugaredd, gwranddo ein gweddi ar eu rhan,  
a bydd gyda phawb sy'n gofidio am anwyliaid,  
a'r claf a'r unig a'r profedigaethus ym mhob man.  
Cysura ac atgyfnertha hwy, ac arwain arweinwyr byd i lwybrau  
cyfiawnder a heddwch.  
Gofynnwn y cyfan yn dy enw. Amen.

## **Gweddi'r Arglwydd**

### **Ctrl a chlic**

<https://youtu.be/3vQX08k8x0g>

### **Emyn – 'Bydd yn wrol, paid a llithro' (C.Ff. 735)**

Bydd yn wrol, paid â llithro,  
er mor dywyll yw y daith  
y mae seren i'th oleuo:  
cred yn Nuw a gwna dy waith.  
Er i'r llwybyr dy ddiffygio,  
er i'r anial fod yn faith,  
bydd yn wrol, blin neu beidio:  
cred yn Nuw a gwna dy waith.

Paid ag ofni'r anawsterau,  
paid ag ofni'r brwydrau chwaith;  
paid ag ofni'r canlyniadau:  
cred yn Nuw a gwna dy waith.  
Cei dy farnu, cei dy garu,  
cei dy wawdio lawer gwaith;  
Na ofala ddim am hynny:  
cred yn Nuw a gwna dy waith.

NORMAN MACLEOD, 1812-72  
cyf. BEN DAVIES, 1864-1937

## **Ctrl a chlic**

<https://youtu.be/CjsyceuElVI>

## **Y Fendith**

Bydded i Dduw pob gras, yr hwn a'ch galwodd i'w dragwyddol  
ogoniant yng Nghrist Iesu, eich gwneud yn gymwys, yn  
gadarn, yn gryf ac yn ddiysgog. Iddo ef y perthyn y gallu am  
byth. **Amen.**